YSTADEGAU, DOGFENNU

# Gwrthdrawiadau ffyrdd wedi’u cofnodi gan yr heddlu: Ebrill i Mehefin 2024 (dros dro)

Data am ddifrifoldeb yr anafiadau a'r math o ddefnyddiwr ffordd ar gyfer Ebrill i Mehefin 2024.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 24 Hydref 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 24 Hydref 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwrthdrawiadau-ffyrdd-wediu-cofnodi-gan-yr-heddlu-ebrill-i-mehefin-2024-dros-dro-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

**Cyflwyniad**

**Gwrthdrawiadau**

**Anafiadau**

**Nodiadau**

**Manylion cyswllt**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwrthdrawiadau-ffyrdd-wediu-cofnodi-gan-yr-heddlu-ebrill-i-mehefin-2024-dros-dro-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cyflwyniad

Mae’r data a gyflwynir yma yn adlewyrchu’r gwrthdrawiadau ar y ffyrdd lle y cafwyd anafiadau personol a gofnodwyd gan heddluoedd yng Nghymru rhwng mis Ebrill a mis Mehefin (Ch2) 2024. Er mai’r data hyn yw’r ffynhonnell wybodaeth fwyaf manwl a dibynadwy am wrthdrawiadau ac anafiadau ar y ffyrdd, nid ydynt yn cynnwys gwrthdrawiadau ffyrdd:

- na chafodd eu hadrodd i'r heddlu
- ddigwyddodd ar dir preifat h.y. meysydd parcio neu gaeau.
- lle na chofnodwyd unrhyw anaf personol
- lle cadarnhawyd y gwrthdrawiad yn ddiweddarach gan weithiwr meddygol proffesiynol neu grwner i fod yn hunanladdiad neu bennod feddygol

O ystyried y diddordeb cynyddol mewn data am wrthdrawiadau ers cyflwyno’r terfyn cyflymder diofyn o 20mya ar 17 Medi 2023, rydym yn cyhoeddi hwn ochr yn ochr â’r tablau data chwarterol rheolaidd i grynhoi canlyniadau allweddol ac i helpu i ddehongli a deall yr wybodaeth. Hefyd, cyhoeddom **ddiweddariad y Prif Ystadegydd** ar ‘ddeall ystadegau ar wrthdrawiadau ac anafiadau ar y ffyrdd’ ar 24 Mai 2024.

Caiff yr holl ddata sylfaenol eu **cyhoeddi ar StatsCymru**, a’n **dangosfwrdd gwrthdrawiadau ar y ffyrdd**. Mae hyn yn cynnwys manylion ychwanegol am wrthdrawiadau ac anafiadau yn ôl ardal ddaearyddol, terfyn cyflymder, difrifoldeb a math o gerbyd.

Mae’r data ar gyfer Ch2 2024 yn ddata dros dro a bydd yn destun adolygiad posibl yn y dyfodol. Gwnaed mân ddiwygiadau i ddata Ch1 2024 oherwydd argaeledd data wedi'i ddiweddaru gan heddluoedd, mae'r rhain wedi'u marcio â (r). Caiff gwybodaeth fanwl am ansawdd ei chyhoeddi yn yr **adroddiad ansawdd cysylltiedig**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwrthdrawiadau-ffyrdd-wediu-cofnodi-gan-yr-heddlu-ebrill-i-mehefin-2024-dros-dro-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Gwrthdrawiadau

Caiff data cyfres amser dros y tymor hir eu cyflwyno yn ein **datganiad ystadegol blynyddol** ac mae'r data yn dangos gostyngiad hirdymor yn nifer y gwrthdrawiadau ar y ffyrdd a gofnodwyd gan heddluoedd yng Nghymru.

Yn Ch2 2024, cafwyd 730 o wrthdrawiadau ar y ffyrdd a gofnodwyd gan heddluoedd yng Nghymru, ac o'u plith roedd:

- 20 (3%) yn angheuol
- 218 (30%) yn wrthdrawiadau difrifol
- 492 (67%) yn fân wrthdrawiadau

Mae nifer y gwrthdrawiadau 16% yn is nag yn yr un chwarter (Ebrill i Mehefin) yn 2023 (869) a dyma'r ffigur chwarter 2 isaf a gofnodwyd y tu allan i gyfnod coronafeirws (COVID-19).

Mae nifer y gwrthdrawiadau 20% yn uwch nag yn y chwarter blaenorol (609 (r)). Mae data gwrthdrawiadau yn dymhorol ac yn cael ei effeithio gan ffactorau fel traffig a thywydd. Mae nifer y gwrthdrawiadau yn tueddu i fod yn uwch yn Ch2 na Ch1 (mae hyn yn wir am 11 o'r 15 mlynedd diwethaf).


Mae nifer y gwrthdrawiadau ffyrdd chwarterol yng Nghymru wedi bod yn gostwng yn raddol yn gyffredinol dros y degawd diwethaf a gall ffigyrau chwarterol fod yn gyfnewidiol. Dylid cymryd gofal wrth ddehongli'r data hyn dros gyfnod byr.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwrthdrawiadau-ffyrdd-wediu-cofnodi-gan-yr-heddlu-ebrill-i-mehefin-2024-dros-dro-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Ffigur 1: Gwrthdrawiadau ar y ffyrdd a gofnodwyd gan heddluoedd yng Nghymru fesul chwarter, Ch1 2010 i Ch2 2024




Disgrifiad o Ffigur 1: Mae'r siart llinell yn dangos cyfres amser ar gyfer nifer y gwrthdrawiadau ar y ffyrdd a gofnodwyd gan heddluoedd yng Nghymru fesul chwarter rhwng Ch2 2010 a Ch1 2024. Mae nifer y gwrthdrawiadau ffyrdd chwarterol wedi gostwng yn gyson dros y degawd diwethaf.

Ffynhonnell: Ystadegau gwrthdrawiadau ffyrdd, Llywodraeth Cymru


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwrthdrawiadau-ffyrdd-wediu-cofnodi-gan-yr-heddlu-ebrill-i-mehefin-2024-dros-dro-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Terfyn cyflymder 20mya a 30mya ar y ffyrdd

Daeth y rhan fwyaf o'r ffyrdd a oedd yn 30mya yn 20mya ar 17 Medi 2023. Felly mae llawer mwy o ffyrdd bellach yn ffyrdd 20mya (cynnydd o ryw 870km i 13,000km), a bod llawer llai yn 30mya (gostyngiad o ryw 13,100km i 980km).

Mae'r adran hon yn ystyried gwrthdrawiadau a ddigwyddodd ar bob ffordd 20mya a 30mya (gyda'i gilydd) i ganiatáu cymariaethau uniongyrchol ar gyfer yr un set o ffyrdd cyn ac ar ôl y newid yn y terfyn cyflymder diofyn ar ffyrdd cyfyngedig.

Yn Ch2 2024, roedd 361 o wrthdrawiadau ar ffyrdd â therfynau cyflymder 20mya a 30mya (wedi'u cyfuno). O'r rhain, roedd 6 yn wrthdrawiadau angheuol, 90 yn ddifrifol a 265 yn fân wrthdrawiadau.

Mae nifer y gwrthdrawiadau ar ffyrdd 20mya neu 30mya (wedi'u cyfuno) a 24% yn is nag yn yr un chwarter yn 2023 (477) a dyma'r ffigur chwarter 2 isaf a gofnodwyd yng Nghymru y tu allan i gyfnod COVID-19. Yn gyffredinol, mae'r rhif hwn wedi bod yn gostwng ar y cyfan dros y degawd diwethaf.

Mae nifer y gwrthdrawiadau ar ffyrdd 20 a 30mya (wedi'u cyfuno) 14% yn uwch nag yn y chwarter blaenorol (318 (r)).


Ar hyn o bryd mae data am wrthdrawiadau ar y ffyrdd ar ôl y newid i'r terfyn cyflymder diofyn o 20mya wedi'u cyfyngu i gyfnod byr o amser (17 Medi 2023 i 30 Mehefin 2024) ac mae'n gyfnewidiol dros y tymor byr. Dylid cymryd gofal wrth ddehongli'r data hyn dros gyfnod byr. Byddwn yn parhau i fonitro hyn dros amser wrth i fwy o ddata ddod ar gael. Mae **diweddariad ein Prif Ystadegydd** yn cynnwys rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwrthdrawiadau-ffyrdd-wediu-cofnodi-gan-yr-heddlu-ebrill-i-mehefin-2024-dros-dro-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**Ffigur 2: Gwrthdrawiadau ar ffyrdd sydd â therfyn cyflymder o 20mya neu 30mya (wedi'u cyfuno) a gofnodwyd gan heddluoedd yng Nghymru fesul chwarter, Ch1 2010 i Ch2 2024**




Disgrifiad o Ffigur 2: Mae'r siart llinell yn dangos cyfres amser ar gyfer gwrthdrawiadau ar y ffyrdd a gofnodwyd gan heddluoedd ar ffyrdd sydd â therfyn cyflymder o 20mya neu 30mya (wedi'u cyfuno) yng Nghymru fesul chwarter rhwng Ch1 2010 a Ch2 2024. Mae nifer y gwrthdrawiadau ar ffyrdd 20mya neu 30mya fesul chwarter wedi gostwng yn gyson dros y degawd diwethaf.

Ffynhonnell: Ystadegau gwrthdrawiadau ffyrdd, Llywodraeth Cymru

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwrthdrawiadau-ffyrdd-wediu-cofnodi-gan-yr-heddlu-ebrill-i-mehefin-2024-dros-dro-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Anafiadau

Gall gwrthdrawiadau unigol ar y ffyrdd arwain at anafiadau i lawer o bobl, sy'n amrywio o ran difrifoldeb.

Yn Ch2 2024, cafodd 1,006 o bobl eu hanafu mewn gwrthdrawiadau ar y ffyrdd yng Nghymru, ac o blith yr anafiadau hyn:

- cafodd 21 (2%) eu lladd
- cafodd 245 (24%) o bobl eu hanafu'n ddifrifol
- cafodd 740 (74%) fân anafiadau

Mae nifer yr anafiadau 12% yn is nag yn yr un chwarter yn 2023 (1,138) a dyma'r ffigur chwarter 2 isaf yng Nghymru y tu allan i gyfnod COVID-19. Yn gyffredinol, mae'r nifer hwn wedi bod yn gostwng dros y degawd diwethaf.


Mae nifer yr anafiadau mewn gwrthdrawiadau ffyrdd a gofnodwyd gan yr heddlu yn 2024 24% yn uwch nag yn y chwarter blaenorol (814 (r)). Mae data gwrthdrawiadau yn dymhorol ac yn cael ei effeithio gan ffactorau fel traffig a thywydd. Mae nifer y marwolaethau yn tueddu i fod yn uwch yn Ch2 na Ch1 (mae hyn yn wir am 11 o'r 15 mlynedd diwethaf).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwrthdrawiadau-ffyrdd-wediu-cofnodi-gan-yr-heddlu-ebrill-i-mehefin-2024-dros-dro-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Ffigur 3: Anafiadau mewn gwrthdrawiadau ar y ffyrdd yng Nghymru fesul chwarter, Ch1 2010 i Ch2 2024




Disgrifiad o Ffigur 3: Mae'r siart llinell yn dangos cyfres amser ar gyfer nifer yr anafiadau mewn gwrthdrawiadau ffyrdd a gofnodwyd gan heddluoedd yng Nghymru fesul chwarter rhwng Ch1 2010 a Ch2 2024. Mae nifer yr anafiadau chwarterol wedi gostwng yn gyson dros y degawd diwethaf.

Ffynhonnell: Ystadegau gwrthdrawiadau ffyrdd, Llywodraeth Cymru

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwrthdrawiadau-ffyrdd-wediu-cofnodi-gan-yr-heddlu-ebrill-i-mehefin-2024-dros-dro-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Terfyn cyflymder 20mya a 30mya ar y ffyrdd

Yn Ch2 2024, cafodd 444 o bobl eu hanafu mewn gwrthdrawiadau ar ffyrdd sydd â therfynau cyflymder o 20mya a 30mya (wedi’u cyfuno). O blith yr anafiadau hyn, roedd 6 yn angheuol, 98 yn ddifrifol a 340 yn fân anafiadau.

Mae nifer yr anafiadau ar ffyrdd 20mya a 30mya 19% (wedi’u cyfuno) 24% yn is nag yn yr un chwarter yn 2023 (584) a 17% yn uwch nag yn y chwarter blaenorol (379 (r)).


Nifer yr anafiadau ar ffyrdd sydd â therfynau cyflymder o 20mya a 30mya (wedi’u cyfuno) yn Ch2 2024 oedd y ffigurau chwarter 2 isaf a gofnodwyd yng Nghymru y tu allan i gyfnod COVID-19. Yn gyffredinol, mae'r nifer hwn wedi bod yn gostwng dros y degawd diwethaf.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwrthdrawiadau-ffyrdd-wediu-cofnodi-gan-yr-heddlu-ebrill-i-mehefin-2024-dros-dro-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**Ffigur 4: Anafiadau a gofnodwyd ar ffyrdd sydd â therfynau cyflymder o 20mya a 30mya yng Nghymru fesul chwarter, Ch1 2010 i Ch2 2024**




Disgrifiad o Ffigur 4: Mae'r siart llinell yn dangos cyfres amser chwarterol o anafiadau mewn gwrthdrawiadau ffyrdd a gofnodwyd gan heddluoedd ar ffyrdd sydd â therfynau cyflymder o 20mya neu 30mya (wedi'u cyfuno) yng Nghymru fesul chwarter rhwng Ch1 2010 a Ch2 2024. Mae'r niferoedd wedi gostwng yn gyson dros y degawd diwethaf.

Ffynhonnell: Ystadegau gwrthdrawiadau ffyrdd, Llywodraeth Cymru


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwrthdrawiadau-ffyrdd-wediu-cofnodi-gan-yr-heddlu-ebrill-i-mehefin-2024-dros-dro-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Nodiadau

Mae'r ystadegau'n cyfeirio'n unig at bobl a gafodd anafiadau personol mewn gwrthdrawiadau ar y ffyrdd y rhoddwyd gwybod amdanynt i'r heddlu. Ceir rhywfaint o bosibilrwydd o thangofnodi achosion o'r fath, yn enwedig ar gyfer digwyddiadau llai difrifol lle nad oedd swyddogion yr heddlu yn bresennol ynddynt.

Nid yw'r ystadegau hyn yn cynnwys gwrthdrawiadau ar y ffyrdd:

- na roddwyd gwybod amdanynt i'r heddlu
- a ddigwyddodd ar dir preifat h.y. meysydd parcio neu gaeau
- lle na gofnodwyd unrhyw anafiadau personol
- lle cadarnhawyd y gwrthdrawiad yn hwyrach gan weithiwr meddygol proffesiynol neu grwner i fod yn hunanladdiad neu episod meddygol

Ar 17 Medi 2023, newidiodd y gyfraith y terfyn cyflymder diofyn ar ffyrdd cyfyngedig yng Nghymru o 30mya i 20mya. Mae'r ffyrdd hyn fel arfer yn strydoedd preswyl neu brysur i gerddwyr gyda goleuadau stryd. Bydd y newidiadau wedi effeithio ar y rhan fwyaf o ffyrdd oedd yn 30mya cyn 17 Medi, ond nid pob un. **Rydym wedi cyhoeddi map ar MapDataCymru sy'n dangos pa ffyrdd sydd wedi aros ar 30mya**.

Mae rhai materion ansawdd data wedi'u nodi mewn perthynas â'r terfyn cyflymder a gofnodwyd ar gyfer y ffyrdd lle digwyddodd y gwrthdrawiadau. Caiff hyn ei esbonio'n fanylach ar ddechrau **Gwrthdrawiadau ffyrdd a gofnodwyd gan yr Heddlu: bwletin ystadegol 2023** ac yn yr **adroddiad ansawdd data**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwrthdrawiadau-ffyrdd-wediu-cofnodi-gan-yr-heddlu-ebrill-i-mehefin-2024-dros-dro-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Manylion cyswllt

Ystadegydd: Oscar Carrel
E-bost: **ystadegau.trafnidiaeth@llyw.cymru**

Cyfryngau: 0300 025 8099

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwrthdrawiadau-ffyrdd-wediu-cofnodi-gan-yr-heddlu-ebrill-i-mehefin-2024-dros-dro-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.